# COFNODION CYFARFOD Y CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD GWENER, 8 MAWRTH 2019, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd R Turner – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Edwards | G John | AA Pucella | E Venables |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

G Cox, G Hopkins, JC Spanswick, DBF White a/ac JE Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Adele Ahearn | Cyfrifydd |
| Philip Beaman | Rheolwr Man Gwyrdd a Gwasanaethau Profedigaeth |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |

## 39. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb gan yr Aelodau a'r Swyddog a ganlyn:-

Y Cyngh G Cox
Y Cyngh G Hopkins
Y Cyngh JC Spanswick
Y Cyngh DBF White
Y Cyngh JE Williams
Zak Shell

## 40. DATGANIADAU BUDDIANT

Dim.

## 41. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo dyddiedig 14 Medi 2018 fel cofnod gwir a chywir.

## 42. ATGYWEIRIO'R ORGAN BIB

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd adroddiad, i ddweud wrth y Cyd-bwyllgor am y gwaith atgyweirio i'r organ bib yng Nghapel Crallo ym Amlosgfa Llangrallo ac i ofyn am gymeradwyaeth i waith gwella a chynnal.

Esboniodd fod yr Amlosgfa'n adeilad rhestredig Gradd 2* ac yn waith pwysig gan y pensaer Maxwell Fry. Roedd yr organ bresennol yn perthyn i adeilad gwreiddiol 1970 ac fe'i hadeiladwyd gan gwmni adnabyddus N P Mander o Lundain.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd fod gan yr organ bib lawer o fanteision pendant dros organ drydan, megis harddwch gweledol, hirhoedledd ac ansawdd y deunyddiau a'r crefftwaith a ddefnyddiwyd, ond yn bennaf ansawdd y sain. Teimlai fod yr Amlosgfa'n eithriadol o ffodus bod ganddi organ bib o'r

maint hwn ac o'r ansawdd hon. Roedd hyn heb os yn un o'r pwyntiau gwerthu unigryw, a welid yn y canu gwych yr oedden ni'n adnabyddus yn ei sgil, gan ddenu llawer o gorau ac unawdwyr.

Aeth ymlaen i ddweud mai cyfraniad ariannol bach iawn oedd wedi'i wneud tuag at yr organ ers tua 1970, heblaw'r hyn yr oedd ei angen ar gyfer tiwnio a gwaith cynnal sylfaenol. Er hynny, yn ddiweddar roedd dibynadwyedd yr organ wedi bod yn fwy o her ac yn peri bod yr ymweliadau tiwnio yn hirach ac yn ddrutach. Yn 2016 argymhellodd y tiwnwyr y dylai rhywfaint o foderneiddio ar y cysylltiadau trydan gael ei wneud gan roi rhywfaint o ystyriaeth i ddiogelwch y tiwniwr wrth gyrraedd y pibau uchel. Yng nghynlluniau busnes 2017/18 a 2018/19 cafwyd darpariaeth o £20,000 ar gyfer y gwaith trwsio lleiaf posibl, ond roedd hyn wedi'i ohirio eto er mwyn asesu'r gofynion yn llawn. Ymgynghorwyd wedyn â'r adeiladwyr gwreiddiol, Manders Organs Ltd, i wneud archwiliad llawn ym mis Hydref 2018.

Wedyn rhoddodd grynodeb llawn o ganlyniad yr archwiliad, gan gynnwys manylion rhywfaint o waith ehangu ar yr organ yr oedd ei angen bellach o ganlyniad i'r archwiliad.

Yn dilyn hyn, ychwanegodd fod yr organ, yn anarferol felly, heb sain corsen ac felly y bwriad oedd cynnwys obo fel rhan o'r cyflwr solet.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd wrth y Cyd-bwyllgor y trefnid bod organ arall ar gael yn ystod y 4 i 5 mis pan gâi'r gwaith ei wneud.

O gofio bod yr Amlosgfa wedi'i rhestru fel adeilad Gradd 2*, cynigid y dylai'r gwaith gael ei wneud gan Manders Organs Ltd, fel ffordd ddibynadwy o sicrhau ei bod yn fecanyddol ddibynadwy yn y dyfodol ac er mwyn cadw ei dilysrwydd.

Cost y gwaith uchod oedd £96,400 ac roedd hyn wedi'i gynnwys yng Nghynllun Busnes yr Amlosgfa ar gyfer 2019/20. (O ran eglurder, roedd £20,000 wedi'i gario ymlaen o'r flwyddyn ariannol honno ynghyd â £76,000 yn ychwanegol o gronfeydd wrth gefn yr Amlosgfa).

Gofynnodd un o'r Aelodau pam nad oedd y gwaith angenrheidiol ar yr organ wedi mynd allan ar dendr, er mwyn sicrhau'r 'gwerth gorau' o ran cost y gwaith atgyweirio/uwchraddio.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd fod yr organ bib yn offeryn unigryw a chymhleth iawn ac y bernid o herwydd hynny ei bod yn eithriadol o bwysig sicrhau mai'r cwmni a'i hadeiladodd yn wreiddiol a fyddai'n gwneud y gwaith uwchraddio arni. Ychwanegodd ar ben hynny mai ychydig iawn yn unig o gwmnïau a oedd ar gael i wneud y gwaith angenrheidiol ar offeryn o'r fath.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r gwaith yn unol â'r amlinelliad yn yr adroddiad ac ar lafar yn y cyfarfod, gan Manders Organs Ltd, am swm o £96,400.

43. <u>GOLEUADAU ALLANOL</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Mannau Gwyrdd a Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad i ofyn am gymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i'r bwriad i osod goleuadau allanol yn yr Amlosgfa

O ran cefndir, esboniodd y byddai darparu goleuadau o'r fath nid yn unig yn peri bod y safle'n fwy dymunol yn esthetig, ond hefyd yn gwella diogelwch adeilad yr Amlosgfa a'r tiroedd o'i hamgylch, gan gynnwys y maes parcio. Byddai goleuadau o'r fath hefyd yn gwella gweledededd i ymwelwyr/galarwyr.

Aeth ymlaen drwy ddweud y byddai darparu goleuadau yn gwella gallu'r Amlosgfa i gydymffurfio â'r gofynion presennol ynghylch mynediad i bobl ag anableddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ychwanegodd y Rheolwr Mannau Gwyrdd a Gwasanaethau Profedigaeth mai'r bwriad oedd gosod bolardiau golau lefel isel ar hyd ffordd a llwybrau'r brif fynedfa, ynghyd â cholofnau goleuadau yn nau brif faes parcio'r Capel a'r swyddfa. Câi arddull y goleuadau ei dewis i gyd-fynd ag arddull bensaernïol yr adeilad.

Cadarnhaodd fod y cynllun goleuo a gynigiwyd wedi cael ei asesu gan Beirianwyr Trydan y Cyngor a bod costau'r gyllideb arfaethedig wedi cymryd i ystyriaeth yr holl ffioedd perthynol am waith dylunio, ceisiadau cynllunio, adroddiadau ecoleg a chostau gwaith Rheoli Contract a Rheoli Prosiect.

Yn olaf, cadarnhaodd y Rheolwr Mannau Gwyrdd a Gwasanaethau Profedigaeth i'r Aelodau fod yr amcangyfrif o gost y gwaith, sef £300k, wedi'i gynnwys yng Nghynllun Busnes yr Amlosgfa ar gyfer 2019/20.

Gofynnodd un o'r Aelodau ai goleuadau LED fyddai'r goleuadau hyn a hynny ar amserwr er mwyn lleihau costau trydan. Gofynnodd hefyd a fyddai'r goleuadau'n creu unrhyw effaith andwyol ar unrhyw eiddo cyfagos yn ymyl yr Amlosgfa.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth y byddai'r goleuadau'n defnyddio technoleg fodern, gan fod honno'n fwy cost-effeithiol na goleuadau safonol. Ychwanegodd na châi darpariaeth goleuadau o'r fath effaith ar anheddau cyfagos, yn arbennig am eu bod yn oleuadau lefel isel ac y byddai dyfeisiau amseru'n cael eu defnyddio.

PENDERFYNWYD:

(1) O ran egwyddor, cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor ddarparu goleuadau allanol yn nhiroedd Amlosgfa Llangrallo.

(2) Rhoddodd y Cyd-bwyllgor awdurdod hefyd i'r Clerc a'r Swyddog Technegol wahodd tendrau ynglŷn â'r gwaith a oedd i'w wneud ac i adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor gyda golwg ar ddechrau gwaith ym mlwyddyn ariannol 2019/20.

## 44. CYNLLUN BUSNES A FFIOEDD YR AMLOSGFA

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd adroddiad a anelai at gymeradwyo'r Cynllun Busnes a'r rhaglen wario ar gyfer 2019/20, gan gynnwys cynnydd arfaethedig mewn ffioedd amlosgi.

O ran gwybodaeth gefndir, cadarnhaodd fod Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn i'r Cyd-bwyllgor i gael ei gymeradwyo, a hwnnw'n cynnwys amcanion y gwasanaeth a phrosiectau cynnal a gwella arfaethedig i wella a chynnal tiroedd ac adeiladau'r Amlosgfa yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Cyfeiriodd wedyn at y Cynllun Busnes, a oedd yn dechrau ar dudalen 19 o'r adroddiad, lle y gwelai'r Aelodau'r Dyfarniadau a'r Campau a nodwyd (ar dudalen 22), ac yn fwy nodedig, fod dyfarniad Baner Werdd wedi'i ennill eto yn 2018, yn ogystal â nodi bod y gwasanaeth yn dal yn hunangynhaliol yn ariannol.

Wedyn manylodd yr adroddiad ar y strwythur staffio a'r oriau busnes; y mathau o ddulliau coffa oedd ar gael, y gwahanol ffyrdd yr oedd yr Amlosgfa yn ei marchnata ei

hun ac yn cyfathrebu â'i defnyddwyr gwasanaethau ac yn olaf, y gwahanol ffyrdd yr oedd yr Amlosgfa yn dal yn gynaliadwy o ran yr amgylchedd.

Ar dudalen 25 o'r adroddiad, tynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd sylw at y cyraeddiadau allweddol dros y 10 mlynedd blaenorol a oedd wedi'u rhestru, a'r diweddaraf o'r rhain oedd adeiladu estyniad yr amlosgyddion ac wedyn gosod amlosgyddion bariatrig yn lle'r amlosgyddion, gan gynnwys cyfleusterau oeri a'r offer llawn ar gyfer lleihau mercwri. Cafwyd manylion yn rhan hon o'r Cynllun hefyd am adnewyddu'r to gwastad uwchben rhan wreiddiol yr Amlosgfa. Wedyn tynnodd sylw hefyd at ymestyn y tiroedd i'r tir newydd a'r dulliau coffa newydd yn y fan honno, ynghyd â'r estyniad pellach ar y seilwaith ffyrdd a'r meysydd parcio yn 2017, o dan yr enw Cyfnod 2, a thirlunio'r fan newydd hon yn 2018.

Ychwanegodd fod y Capel Cofio wedi'i adnewyddu hefyd yn 2018.

Ar waelod tudalen 26 tynnwyd sylw at ddangosyddion perfformiad y pum mlynedd blaenorol, a'r rheiny'n ymwneud â boddhad defnyddwyr, sef canlyniadau sy'n cael eu codi o holiaduron y gwasanaeth sy'n cael eu hanfon at y rhai sy'n gwneud cais am amlosgiad. Y targed oedd sicrhau bod 100% o'r lefelau boddhad cyffredinol yn dda neu'n ardderchog ac roedd y rhain yn parhau'n gyson yn 100%, ac roedd yr un targed wedi'i osod yn 2019/20.

Wedyn cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd at yr ystadegau blynyddol ynghylch amlosgi, yr oedd y manylion amdanynt ar dudalen 28/29 o'r Cynllun Busnes. Cyfanswm yr amlosgiadau yn 2018 oedd 1614, sef 998 o Ben-y-bont, 145 o Fro Morgannwg a 415 o Rondda Cynon Taf, a 66 yn preswylio y tu allan. Roedd cytundeb ag Ysbyty Tywysoges Cymru ynghylch amlosgi gweddillion ffetysau anhyfyw (NVF) wedi arwain at 12 amlosgiad cyfunol yn ychwanegol. Ychwanegodd fod 9 amlosgiad NVF unigol arall wedi'u trefnu'n uniongyrchol gyda theuluoedd.

Roedd tablau cofnodion ystadegol y cyfnod o Ionawr i Ragfyr 2018 a 2017 wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu ar dudalennau 27 a 28 o'r Cynllun ac ar sail hyn byddai'r Aelodau'n nodi mai 1620 oedd cyfanswm yr amlosgiadau yn 2017. Erbyn hyn roedd nifer yr amlosgiadau yn aros yn weddol gyson bob blwyddyn, er bod 35 yn llai o amlosgiadau o Fro Morgannwg, tra oedd nifer yr amlosgiadau o Rondda Cynon Taf wedi cynyddu 36, gyda nifer y preswylwyr y tu allan i'r ardal wedi aros yr un fath yn union.

Wedyn roedd y Cynllun Busnes yn amlinellu datblygiadau ac amcanion y gwasanaeth am y cyfnod 2019/20. Roedd manylion y rhain ar gael ar dudalennau 29 a 30 o'r Cynllun Busnes.

O ran taliadau lleihau mercwri i CAMEO, efallai fod y Cyd-bwyllgor yn cofio bod yr amlosgfeydd hynny a oedd wedi lleihau mercwri mewn mwy na 50% o'u hamlosgiadau, yn cael gwerthu'r amlosgiadau lleihau mercwri uwchlaw'r targed i'r rhai sydd wedi lleihau llai na'r targed, drwy gyfrwng CAMEO. Roedd y rhai a oedd wedi lleihau mwy na'r targed yn creu incwm, ac roedd y rhai a oedd heb wneud hynny yn rhannu'r baich ariannol. O ganlyniad, talodd Amlosgfa Llangrallo £41k am y cyfnod 2015/16 yn sgil rhannu costau'r amlosgfeydd a oedd heb leihau mercwri yn 2015. Trodd y ffigwr rhannu costau hwn yn incwm yn 2016/17, gan fod yr offer lleihau mercwri wedi'i osod yn Ebrill 2016, gan alluogi'r Amlosgfa i leihau mwy na 50% o'i hamlosgiadau yn ystod 2016/17, gan greu incwm o £5,950.10 ac unwaith eto yn 2017/18, gan greu incwm o £6,415.92. Llwyddodd yr Amlosgfa i leihau mercwri yn ei holl amlosgiadau yn 2018 ac roedd yn aros i gael cadarnhad o'r incwm posibl y gallai ddisgwyl ei greu ar gyfer 2018/19.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd y byddai prif ffocws amcanion y gwasanaeth yn 2019/20 fel a ganlyn:-

- Uwchraddio ac atgyweirio'r organ bib a oedd eisoes wedi'i drafod yn yr adroddiad i'r Cyd-bwyllgor ar y diwrnod,
- Atgyweirio'r toeon gwastad uwchben yr Ystafell Aros a'r Porte-cochère. Awdurdodwyd y gwaith hwn yn Adroddiad Busnes y llynedd ond roedd wedi'i ohirio tan fis Mehefin 2019 am ei fod yn agos i fynedfa'r capel ac am fod yna awydd iddo gael ei wneud ym misoedd tawelwch yr haf pan ddylai'r tywydd fod yn fwy dibynadwy hefyd.
- Cawsai astudiaeth ddichonolrwydd yr estyniad i Gwrt y Blodau ei chymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor ar 15 Mehefin 2018 i gael ei gyllido o gyllideb refeniw 2018/19. Câi'r adroddiad hwn ei gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Mehefin 2019. Gallai'r prosiect gael ei gynnwys yng nghronfeydd wrth gefn yr Amlosgfa ac fe'i hystyrid yn fanylach ym mis Mehefin. Er hynny, roedd amcangyfrif o £300,000 wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2019/20 i ymdopi â chyfnod adeiladu'r prosiect, cyhyd ag y câi hynny ei gadarnhau gan yr Aelodau.
- Roedd goleuadau allanol eisoes wedi'u trafod mewn adroddiad blaenorol a ystyriwyd gan y Cyd-bwyllgor ar y diwrnod.
- Roedd angen adnewyddu cyfleusterau ystafell orffwys tîm yr amlosgyddion er mwyn sicrhau ei bod yn dal yn addas i'w diben. Rhwng 2014 a dechrau 2016, roedd yr ystafell orffwys hefyd yn darparu cyfleusterau lles i'r contractwyr a fu'n codi estyniad adeilad yr amlosgyddion ac yn gosod offer newydd yr amlosgyddion.
- Roedd byrddau dosbarthu trydan yr Amlosgfa, sydd i'w cael yn bennaf yn ystafell trydan a gwyntyll yr amlosgyddion, yn perthyn yn wreiddiol i gyfnod agor yr adeilad ym 1971, ac er mwyn bodloni'r safonau cyfredol roedd angen eu hamnewid.
- Ar ben y datblygiadau arfaethedig hyn yn y gwasanaeth, roedd swm wrth gefn wedi'i gynnwys yng Nghyllideb Refeniw'r Amlosgfa i dalu am fân waith heb ei gynllunio a gwaith trwsio a chynnal cyffredinol.

Atgoffodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd y Cyd-bwyllgor hefyd fod y gronfa dros ben wedi'i bwriadu i grynhoi cyllid wrth gefn er mwyn amnewid yr amlosgyddion a'r offer ategol yn y dyfodol ymhen rhyw 12 mlynedd, yn ogystal ag ariannu'r holl welliannau yn y gwasanaeth yn y dyfodol.

Byddai parhau â'r gronfa hon yn golygu bod gan yr Amlosgfa ddigon o arian hirdymor ar gyfer y ddau, ac ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl a allai ddigwydd.

Roedd y tabl ar dudalen 31 o'r Cynllun yn manylu ar ragolygon o gostau'r amcanion hyn, y rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd grynodeb ohonynt er lles yr Aelodau, fel y gwnaeth hefyd ar fanylion y Gyllideb arfaethedig a restrwyd yn unigol ar dudalen 32 o'r Cynllun.

Roedd y tabl ar dudalennau 33/34 yn crynhoi'r amserlenni a chyfrifoldebau'r swyddogion ar gyfer y prosiectau dros y flwyddyn ariannol flaenorol a'r flwyddyn ariannol gyfredol a'r rhai ar gyfer amcanion newydd 2019/20.

Gan gyfeirio'n ôl at yr adroddiad ar dudalen 16, tynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd sylw at baragraff 4.3 a oedd yn ymwneud â gosod taliadau ar gyfer 2019/20, yn enwedig y tâl wythnosol am amlosgi oedolyn ac felly gynnydd cyffredinol yn yr holl ffioedd. Roedd y tâl amlosgi am y flwyddyn ariannol bresennol yn gosod yr Amlosgfa yn safle rhif 258 allan o 291 o awdurdodau amlosgi mewn tabl ffioedd cenedlaethol a gyhoeddwyd yn haf 2018 (lle roedd y tâl uchaf am amlosgi yn cael ei osod yn gyntaf). Argymhellwyd y dylai'r tâl amlosgi gael ei godi yn unol â chwyddiant, o £662.20 i £680.70. Roedd hyn wedi'i seilio ar gynnydd cyffredinol mewn

ffioedd o 1% plws ffigur cyfredol chwyddiant, sef 1.8%, yn unol â phrotocol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd y tabl ar dudalen 16 o'r adroddiad yn dangos cymhariaeth o'r ffioedd cyfredol am amlosgi mewn amlosgfeydd cyfagos:-

**Ffioedd Amlosgi Amlosgfeydd 2018/19**

Bro Morgannwg (Y Barri) £850.00+ (heb gynnwys £47 am organydd)
Llanelli £785.00
Glyn-taf (Pontypridd) £690.00 (heb gynnwys organydd)
Llwydcoed (Aberdâr) £690.00 (heb gynnwys organydd)
Croesyceiliog (Gwent) £684.00 (heb gynnwys organydd)
Treforys (Abertawe) £665.00 (heb gynnwys organydd)
Llangrallo (Pen-y-bont ar Ogwr) £662.20
Margam £605.00
Arberth £581.00
Thornhill (Caerdydd) £560.00 (heb gynnwys organydd)

Roedd yr holl amrywiadau mewn gwariant ac incwm, yn unol â'r amlinelliad yn y Cynllun Busnes Lefelau Gwasanaeth, gan gynnwys y cynnydd arfaethedig yn y ffioedd, a ymgorfforwyd yn Adroddiad y Trysorydd ar y diwrnod, i'w trafod yn nes ymlaen ar agenda cyfarfod y diwrnod.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor:-

(1) Yn cymeradwyo Cynllun Busnes Lefelau Gwasanaeth 2019/20.
(2) Yn cymeradwyo'r ffi amlosgi ar gyfer 2019/20 yn £680.70 a chynnydd cyffredinol yn yr holl ffioedd o 2.8%

45. GWASANAETH NADOLIG 2018

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd adroddiad i roi'r newyddion diweddaraf i'r Cyd-bwyllgor am drefniadau Gwasanaeth Nadolig 2018.

Fel rhan o'r trefniadau hyn, dywedodd fod y Cyd-bwyllgor wedi cael gwybod o'r blaen y câi'r lluniaeth ei noddi gan Dŷ Hebrwng Rosemount, Pen-y-bont ar Ogwr (Co-operative Funeral Care.)

Esboniodd hefyd fod Tŷ Hebrwng Rosemount, Pen-y-bont ar Ogwr (Co-operative Funeral Care) wedi tynnu ei nawdd yn ôl yn anffodus, a hynny yn hwyr yn y dydd, am resymau busnes corfforaethol. Wedyn cafodd y lluniaeth ei noddi yn hytrach gan WH Preene a'i Fab, Trefnwyr Angladdau, Pont-y-clun.

Cytunodd yr Aelodau anfon llythyr arall o ddiolch i WH Preene a'i Fab, Trefnwyr Angladdau, oddi wrth y Cyd-bwyllgor yn gwerthfawrogi eu cymorth wrth gefn ynglŷn â chefnogi'r Gwasanaeth Nadolig.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor yn nodi'r adroddiad.

46. RHAGLEN GYFARFODYDD 2019/20

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd adroddiad gan ofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r Rhaglen Gyfarfodydd arfaethedig ar gyfer 2019/20.

Roedd dyddiadau arfaethedig y cyfarfodydd y tymor nesaf fel a ganlyn:-

- Dydd Gwener 14 Mehefin 2019 – Cyfarfod blynyddol ac ymweliad safle (tir yr Amlosgfa);
- Dydd Gwener 13 Medi 2019;
- Dydd Gwener 6 Mawrth 2020

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo Rhaglen Gyfarfodydd 2019/20.

47. CYLLIDEB REFENIW ARFAETHEDIG 2019-20

Cyflwynodd y Cyfrifydd, Rheoli Cyllid a Chau Cyfrifon adroddiad, i roi gwybod i'r Cyd-bwyllgor am y rhagolygon o berfformiad ariannol yr Amlosgfa ar gyfer 2018-19, ac i sicrhau cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i Gyllideb a Ffioedd a Thaliadau arfaethedig 2019-20.

Cyfeiriodd hi'r Aelodau at baragraff 4.1 o'r adroddiad ac at Dabl 1, a oedd yn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol ar 31 Ionawr 2019 ynghyd â'r rhagolwg o alldro 2018-19.

Dywedodd y Cyfrifydd, Rheoli Cyllid a Chau Cyfrifon fod yna ragolwg o warged o £373k, pan gawsai'r Gyllideb ei gosod. Ar ddiwedd mis Ionawr, y rhagolwg o'r alldro oedd y ceid gwarged o £464k, y byddai angen ei drosglwyddo i Warged Cronedig yr Amlosgfa. Ym mharagraff 4.2 roedd esboniad o'r prif amrywiadau rhwng y Gyllideb a'r Rhagolwg o'r Alldro, ac amlinellodd y swyddog y rhain er lles yr Aelodau, gan gynnwys yn Nhabl 2, Cynnal-a-chadw arfaethedig ar gyfer 2018-19.

Roedd paragraff 4.3 o'r adroddiad yn rhoi manylion Cyllideb Refeniw Arfaethedig 2019-20, a oedd yn dangos amcangyfrif o warged cyffredinol o £336k. Ychwanegodd fod cyllidebau'r gweithwyr wedi'u haddasu i adlewyrchu cynnydd mewn cyflog lle roedd hynny'n gymwys, gan gynnwys ymgodiad o 2% ar gyfer dyfarniad tâl 2019-20.

Wedyn roedd paragraff 4.6 yn rhoi gwybodaeth am Gynllun Busnes 2019-20, gan gynnwys gofyniad o gyllideb o £776k i dalu am y gwariant fesul eitem a geid yn Nhabl 2 yn y rhan honno o'r adroddiad, o dan y teitl Gofynion Gwario'r Cynllun Busnes.

Dywedodd wrth y Cyd-bwyllgor fod y cyllidebau incwm wedi'u paratoi ar y rhagdybiaeth y ceid cynnydd cyffredinol yn y ffioedd o 2.8% (1% plws CPI yn ôl 1.8%) ar sail y lefelau gweithgarwch presennol. Atodwyd Tabl Ffioedd Arfaethedig 2019-20 yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Roedd paragraff 4.9 o'r adroddiad yn rhoi effaith balans cronedig cyllideb arfaethedig 2019-20 ar ffurf tabl (sef Tabl 5), gydag unrhyw ddiffyg yn cael ei dynnu o'r gwarged cronedig. Y rhagolwg oedd y byddai yna falans cronedig ar 31 Mawrth 2020 o £1,387,000. Dywedodd y Cyfrifydd, Rheoli Cyllid a Chau Cyfrifon wrth yr Aelodau y bernid bod balans y Cronfeydd Wrth Gefn (ar 31 Mawrth 2020) yn ddigonol i amddiffyn y gwasanaeth yng ngoleuni unrhyw alwadau anhysbys neu argyfwng.

Yn olaf, caeodd ei chyflwyniad drwy ddweud na fyddai'r gwariant cyfalaf yn golygu bod angen unrhyw fenthyciad na chyfraniad ar ffurf tâl gan yr awdurdodau cyfansoddol yn 2019-20. Ychwanegodd y byddai eitemau o natur gyfalaf ar gyfer 2019-20 yn Nhabl 4 (paragraff 4.6 o'r adroddiad), yn cael eu hariannu'n uniongyrchol drwy gyfraniadau refeniw a'r gwarged a gronnwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor:-

(1) Yn nodi'r rhagolygon ariannol ar gyfer 2018-19.
(2) Yn cadarnhau ac yn cymeradwyo'r gyllideb refeniw a oedd i'w mabwysiadu ar gyfer 2019-20.
(3) Yn cymeradwyo'r cynnydd ffioedd a thaliadau o 1 Ebrill 2019, a amlinellwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

48. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:05